OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 2687

# Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2008

**Diwygio Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007**

**3.**—(1) Diwygir Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (Diffiniadau) —

(a) hepgorer y diffiniadau o "y Rheoliadau Tribiwnlys" ac "y Tribiwnlys";

(b) mewnosoder y diffiniadau a ganlyn yn y mannau priodol yn nhrefn yr wyddor—

""y mae i'r ymadrodd "y Tribiwnlys Haen Gyntaf" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "the First-tier Tribunal" yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**1**);";

""y mae i'r ymadrodd "Rheolau Gweithdrefnau'r Tribiwnlys" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "the Tribunal Procedure Rules" yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.".

(3) Yn erthygl 11 (Apelau) —

(a) ym mharagraffau (1) a (5) yn lle "Tribiwnlys" rhodder " Tribiwnlys Haen Gyntaf";

(b) yn lle paragraff 2 rhodder—

"(2) Y mae Rheolau Gweithdrefnau'r Tribiwnlys yn gymwys i apêl o dan baragraff (1) fel y maent yn gymwys i apêl o dan adran 79 o Ddeddf 1989 (**2**)."; ac

(c) hepgorer paragraffau (3) a (4).

(**1**) 2007 p.15.
(**2**) 1989 p.41.